Gwaith Ymgysylltu Dinas Diwylliant: adroddiad adborth Ebrill 2022

1. Pam gwnaethom gynnal y gwaith ymgysylltu yma?

Roedd ar y gweithgor Dinas Diwylliant eisiau derbyn adborth gan y rheiny sy'n byw ac yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam i hysbysu cais Dinas Diwylliant 2025. Roedd ar y gweithgor eisiau ymgysylltu â chymaint o bobl â phosibl a chyrraedd pawb sy'n rhan o'n cymuned.

2. Sut gwnaethom ni hyn?

Fis Rhagfyr 2021 datblygwyd arolwg gan Arweinydd Tîm Perfformiad, Gwelliant a Phartneriaethau ar gyfer Ymgynghori ac Ymgysylltu, ar y cyd â Gwasanaeth Cydlyniant Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.

Mae porth ymgysylltu http://www.yourvoicewrexham.net Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn hwyluso gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor.

- Cyhoeddwyd arolwg dwyieithog ar-lein ar 'Eich Llais Wrecsam' ar 6 Ionawr 2022 tan 31 Mawrth 2022
- Er mwyn cefnogi'r rheiny heb gysylltiad â'r rhyngrwyd neu'r rheiny a oedd angen yr arolwg mewn iaith wahanol, darparwyd copïau PDF o'r arolwg yn Gymraeg, Saesneg, Pwyleg a Phortiwgaleg (roedd ieithoedd eraill ar gael ar gais)
- Cafodd yr arolwg hefyd ei argraffu a'i lamineiddio ar gyfer digwyddiadau, er mwyn cyfathrebu â phobl wyneb yn wyneb a gofyn iddyn nhw ymateb drwy ddarparu adborth ar nodiadau bach gludiog

Yn ogystal â hyn cynhaliwyd fforymau ar-lein '#Wrecsam2025' ar 18 ac 19 Ionawr 2022.

3. Beth oedd cynnwys y gweithgaredd ymgysylltu?

Roedd yr arolwg ar-lein yn cynnwys tri chwestiwn testun rhydd er mwyn i ymatebwyr fynegi yn eu geiriau eu hunain beth yw ystyr diwylliant a phwysigrwydd diwylliant iddyn nhw. Defnyddiwyd y cwestiynau hyn hefyd i ennyn trafodaeth yn fforymau ar-lein #Wrecsam2025.

Y tri chwestiwn oedd:

1. Beth yw eich hoff beth i wneud ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a pham?
2. Beth sy'n gwneud chi'n falch i alw Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gartref i chi? Pam?
3. Sut hoffech chi weld cais Dinas Diwylliant Wrecsam yn cael ei ddefnyddio wrth greu cyfleoedd newydd a mynd i'r afael ag anghenion ein cymunedau lleol?

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ar-lein nodi a oedden nhw'n ymateb fel unigolyn neu ar ran grŵp. Os oedd yr ymateb ar ran grŵp gofynnwyd am wybodaeth sylfaenol am y grŵp.

Er mwyn derbyn gwybodaeth am gyrhaeddiad yr arolwg, yn cynnwys a dderbyniwyd barn unigolion gyda nodweddion a ddiogelir, roedd yr arolwg ar-lein hefyd yn cynnwys cwestiynau monitro cydraddoldeb dewisol.

4. Sut cafodd y gweithgaredd ymgysylltu ei hyrwyddo?

Arolwg ar-lein

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i hyrwyddo'r arolwg ar-lein, yn cynnwys:

- **Ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol** yn defnyddio cyfrifon Facebook a Twitter Cymraeg a Saesneg y Cyngor a thudalen Facebook Wrecsam 2025. Cafodd negeseuon eu 'pinio' i frig y proffil (sy'n golygu eu bod yn aros ar frig y dudalen hyd yn oed ar ôl cyhoeddi negeseuon newydd ar y dudalen)
- **Gwefan Dinas Diwylliant:** www.wrecsam2025.com
- **Ffeithlen** a anfonwyd at holl gynghorwyr Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a dderbyniodd becyn gwaith y cyfryngau cymdeithasol hefyd, yn cynnwys negeseuon iddyn nhw eu defnyddio a oedd yn cynnwys dolenni i'r arolwg er enghraifft:

  21 Ionawr 2022
  Dweud eich dweud ar yr hyn yr hoffech CHI ei weld yn rhan o #Wrecsam2025
  https://www.yourvoicewrexham.com
- **Gwybodaeth mewn blog:** https://newyddion.wrecsam.gov.uk/beth-fydd-ein-stori-wrecsam2025/
- **Gwybodaeth ym mwletin staff CBSW** a negeseuon gan y Prif Weithredwr
- **E-byst uniongyrchol at:**
  - Llysgenhadon a budd-ddeiliaid Dinas Diwylliant, a grwpiau sy'n gofyn am grantiau gan gronfa ddigwyddiadau Dinas Diwylliant
  - Cynghorau Tref a Chymuned Bwrdeistref Sirol Wrecsam
  - Grwpiau o bobl sy'n cynrychioli'r rheiny gyda nodweddion a ddiogelir ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam (tua 115 o gysylltiadau)
- **Cynhyrchwyd 1,000 o daflenni dwyieithog yn hysbysebu'r arolwg** a'u dosbarthu i leoliadau allweddol yn y fwrdeistref, yn cynnwys llyfrgelloedd a swyddfeydd stadau tai a lleoliadau yng nghanol tref Wrecsam, yn cynnwys:
  - Tŷ Pawb (marchnad a chelfyddydau cymunedol), eu dosbarthu yn ystod digwyddiadau ac ati
  - Yellow and Blue Hub (cefnogi unigolion diamddiffyn cymuned Wrecsam)
  - Eglwys Sant Silyn
  - Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth Xplore!
  - Saith Seren
  - Hwb Menter Wrecsam (Canolbwynt Busnes Cymru)

Anfonwyd negeseuon atgoffa am y gwaith ymgysylltu at y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol hanner ffordd drwy'r cyfnod ymgysylltu, gyda nodyn atgoffa arall wythnos cyn y dyddiad cau.

Adolygiad o gyrhaeddiad y gwaith ymgysylltu: Drwy gydol y cyfnod ymgysylltu 12 wythnos cynhaliodd y gweithgor Dinas Diwylliant gyfarfodydd rheolaidd i adolygu cyrhaeddiad y gwaith ymgysylltu.

Fforymau #Wrecsam2025
Hyrwyddwyd fforymau #Wrecsam2025 ar dudalen Facebook Wrecsam2025 ac ar draws rhwydwaith cysylltiadau Tîm Cydlyniant Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru.

5. Beth oedd yr ymateb?

Arolwg ar-lein

Aeth 520 o bobl at yr arolwg ar-lein ac o'r rheiny bu i 257 ymateb i un neu fwy o'r tri chwestiwn allweddol.

O'r 257 a ymatebodd i un cwestiwn neu fwy, roedd 12 yn cynrychioli grŵp/sefydliad neu fusnes a 245 yn ymateb fel unigolion.

Fforymau #Wrecsam2025

Roedd oddeutu 40 o bobl yn bresennol yn y ddwy sesiwn. Roedd y cynrychiolwyr cymunedol yn cynnwys darparwyr gwasanaeth lleol, perchnogion busnes, trefnwyr cymdeithasol, cynrychiolwyr ffydd a ffoaduriaid.

6. Beth wnaethom ddarganfod a sut?

Arolwg ar-lein: Dadansoddiad o'r ymatebion testun rhydd

Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd i'r arolwg ar-lein i nodi themâu cyffredin. Cafodd yr adborth ei drefnu fesul thema gydag ymatebion unigol yn cael eu rhoi dan fwy nag un thema os yn berthnasol.

Cynhaliwyd y gwaith dadansoddi gan staff yn gweithio mewn parau, i adolygu'r ymatebion i bob cwestiwn testun rhydd. Mae'r canfyddiadau wedi'u gwirio i sicrhau cysondeb.

Mae'r pum prif thema sy'n gyffredin yn yr ymatebion i'r tri chwestiwn wedi'u nodi isod.

C1. Beth yw eich hoff beth i wneud ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a pham?
Ymatebodd 251 o grwpiau neu unigolion i'r cwestiwn hwn. Mae'r pum prif thema sy'n gyffredin yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u nodi isod.

Thema	Disgrifiad	Nifer y weithiau y mae'r thema wedi'i chynnwys yn yr adborth
Mwynhau cefn gwald a pharciau gwledig	Mwynhau golygfeydd ac archwilio'r dirwedd gyfoethog yn ein parciau gwledig a'r cefn gwald cyfagos, yn cynnwys y rhwydwaith o gamlesi; drwy ymweld â'r ardaloedd hyn, cerdded a/neu feicio, mwynhau'r llefydd chwarae	159
Ymweld â safleoedd treftadaeth ac amgueddfeydd	Ymweld â safleoedd treftadaeth fel Dyfrbont Pontcysyllte, safleoedd treftadaeth ddiwydiannol/hanesyddol, adeiladau a gerddi'r Ymddiriedaeth Genedlaethol, Amgueddfa Wrecsam ac ati	63
Cymdeithasu	Cwrdd a threulio amser gyda ffrindiau, teulu a chydweithwyr	29
Mynd i ddigwyddiadau	Mynd i ddigwyddiadau diwylliannol fel digwyddiadau cerddoriaeth fyw, digwyddiadau sy'n dathlu talentau lleol, digwyddiadau ar gyfer plant a theuluoedd	27
Bwyta allan	Mynd i fwytai a llefydd bwyta eraill – dewis o'r amrywiaeth o lefydd bwyta sydd ar gael, mwynhau bwyd da	26

Mae cefn gwlad a pharciau gwledig Wrecsam yn cael eu gwerthfawrogi'n arw gan y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y fwrdeistref, ac mae hynny i'w weld yn nifer yr ymatebion cadarnhaol dan y thema hon.

Dyma sylwadau rhai o'r ymatebwyr:

> *Amgylchedd hardd ac ar garreg ein drws – does dim byd yn bell yn Wrecsam. Canol y dref, parciau gwledig, bryniau, camlesi ac afonydd yn dro ychydig filltiroedd yn y car.*
>
> *Rydym ni wedi ein difetha yn y sir o ran llwybrau cerdded golygfaol, a llawer ohonyn nhw'n llawn hanes a threftadaeth ddiwylliannol.*
>
> *Rydym ni wrth ein bodd yn mynd allan i'r awyr agored. Mae gan Wrecsam lawer i'w gynnig, o heicio ar Fynydd y Mwynglawdd i sblasio yn yr afon ym Mharc Gwledig Erddig.*

C2. Beth sy'n gwneud chi'n falch i alw Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gartref i chi? Pam?

Ymatebodd 247 o grwpiau neu unigolion i'r cwestiwn hwn. Mae'r pum prif thema sy'n gyffredin yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u nodi isod.

Thema	Disgrifiad	Nifer y weithiau y mae'r thema wedi'i chynnwys yn yr adborth
Cyfeillgar/Croesawu diwylliannau amrywiol	Mae pobl Wrecsam yn groesawus ac yn gyfeillgar, gan estyn croeso i bobl o wahanol ddiwylliannau a ffydd	54
Ysbryd cymunedol cryf	Ein synnwyr cryf o gymuned. Mae pobl Wrecsam yn awyddus i helpu a chefnogi ei gilydd	53
Golygfeydd godidog	Cyfleodd i fwynhau ein tirwedd a'n hamgylchedd naturiol hardd	52
Hanes a diwylliant Cymru	Pobl sy'n ymfalchïo yn eu treftadaeth Gymreig, eu hiaith, eu diwylliant a'u gwreiddiau Cymreig	38
Cymuned weithgar	Cymuned weithgar gyda llawer i'w weld a'i wneud	32

Rhoddodd ymatebwyr y cwestiwn hwn gydnabyddiaeth eang i groeso Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddiwylliannau amrywiol, cyfeillgarwch pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y fwrdeistref ac ysbryd cymunedol cryf.

Dyma ychydig o sylwadau'r ymatebwyr:

> *Dw i'n meddwl bod gan bobl Wrecsam rinweddau gwahanol. Mae gennym ni lawer o ddyfalbarhad, ac rydym ni'n optimistaidd.*
>
> *Mae'n gymuned amrywiol a bywiog lle mae pobl o bob cenedl a chefnir yn derbyn croeso. Mae cyfraniad pawb yn cael ei gynnwys gydag awch, pa unai yw hynny yn eu hiaith, eu bwyd, chwaraeon, celf neu eu traddodiadau. Mae Wrecsam yn gynhwysol ac yn groesawus. Dw i'n caru'r bobl, sy'n amrywiol a chyfeillgar. Wrecsam ydi'n cartref ac rydym ni'n croesawu pobl eraill i ymgartrefu yma.*
>
> *Pobl Wrecsam – Dw i wedi byw mewn ardaloedd eraill o'r wlad ond dydw i erioed wedi cael fy nerbyn na theimlo'n gartrefol i'r fath raddau yn unrhyw le arall. Mae'r bobl yma yn wirioneddol yn gwneud y dref yn unigryw a'r hyn ydyw heddiw. Fe allwch chi gerdded yn unrhyw le yn Wrecsam ac rydych chi'n siŵr o weld wyneb cyfeillgar sy'n fodlon eich helpu os oes angen. Dw i'n falch o ddod o Wrecsam a dw i'n falch o'n diwylliant Cymreig a'n hanes cyfoethog.*

C3 Sut hoffech chi weld cais Dinas Diwylliant Wrecsam yn cael ei ddefnyddio wrth greu cyfleoedd newydd a mynd i'r afael ag anghenion ein cymunedau lleol?

Ymatebodd 247 o grwpiau neu unigolion i'r cwestiwn hwn. Mae'r pum prif thema sy'n gyffredin yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u nodi isod.

Thema	Disgrifiad	Nifer y weithiau y mae'r thema wedi'i chynnwys yn yr adborth
Buddsoddi i wella edrychiad a theimlad canol y dref	Ailwampio, glanhau a thacluso canol y dref. Annog busnesau annibynnol, caffis ar y palmant ac ati. Lleihau trethi busnes yng nghanol y dref o bosibl. Mynd i'r afael ag adeiladau gwag a gwella edrychiad a theimlad canol y dref. Ailddatblygu canolfan siopa Dôl yr Eryrod.	79
Amrywiaeth o weithgareddau a chymorth ar draws y fwrdeistref i ddiwallu anghenion. Gwelliannau i bob cymuned ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.	Gweithgareddau a chymorth i bobl o bob oed, annog cynhwysiant cymunedol a hygyrchedd. Mwy o gyfleoedd i gefnogi pobl amddifad a diamddiffyn. Gwelliannau i bob cymuned ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, gan gwrdd ag anghenion ein cymunedau.	72
Hyrwyddo hanes a diwylliant Wrecsam, yn cynnwys hanes diwydiannol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, safleoedd o ddiddordeb archeolegol	Hyrwyddo hanes a diwylliant Wrecsam. Cynnal a gwella hen adeiladau ac adeiladau hanesyddol, ailddatblygu safleoedd hanesyddol presennol. Hyrwyddo mwy ar Wrecsam fel lle i ymweld, gan roi hwb i'r diwydiant twristiaeth. Hyrwyddo Wrecsam fel canolfan fusnes a masnachol/diwydiannol.	50
Mwy o ddigwyddiadau cymunedol a diwylliannol	Mwy o ddigwyddiadau cymunedol a diwylliannol da ar draws y fwrdeistref, i ddod â phobl o bob oed at ei gilydd a denu pobl i'n cymunedau.	36
Gwella cyfleusterau / gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc	Gwella cyfleusterau/gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.	34

Roedd buddsoddi i wella edrychiad a theimlad canol y dref yn thema allweddol yn yr adborth i'r cwestiwn hwn; roedd yna hefyd gydnabyddiaeth bod angen i'r cais Dinas Diwylliant roi budd i bob cymuned yn y fwrdeistref ac nid canol y dref yn unig.

Cydnabyddir anghenion amrywiol unigolion a grwpiau'r sir, ac roedd yna ddymuniad cryf i hyrwyddo hanes a diwylliant unigryw Wrecsam.

Dyma ychydig o sylwadau gan yr ymatebwyr:

> *…..drwy hyrwyddo'r dref yn ei golau gorau posibl. I gyflwyno miloedd o bobl, pobl fusnes, pobl artistig a phobl greadigol ac entrepreneuriaid i dref sy'n croesawu ac sy'n dyheu i dyfu ac sydd â'r gofod i dyfu, ond parhau i gadw'r elfen gyfeillgar a chroesawus 'Dewch yma'.*
>
> *Hoffaf weld y cais Dinas Diwylliant yn cael ei ddefnyddio i ddenu pobl i'r dref ac i ddod â chyllid ychwanegol i ddatblygu rhai o ardaloedd tlotaf y sir ac, os gwneir hynny'n gywir, byddai hynny yn trawsnewid Wrecsam yn ganolbwynt y gogledd.*

Hoffaf i'r cais ddod â phobl yn ôl i ganol y dref a rhoi bywyd newydd i'r gymuned. Hoffaf hefyd i bobl allu gweld diwylliant y dref, er mor fach ydyw, mae'n dref falch ac angerddol.

Trawsgrifiad #Wrecsam2025

Mae trawsgrifiadau o fforymau ar-lein #Wrecsam2025 wedi cael 27 dyfyniad gwahanol gan y gymuned mewn ymateb i'r tri chwestiwn allweddol a ddefnyddiwyd i ennyn trafodaeth yn y fforymau.

Dyma ddetholiad o ddyfyniadau fforymau #Wrecsam2025:

Symudais i fyw i Wrecsam 30 o flynyddoedd yn ôl. Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl, gan dderbyn swydd yma fel llyfrgellydd. Cefais fy synnu gan gyfeillgarwch y bobl, sy'n para hyd heddiw. Dw i'n byw yn Hightown, a'r hyn dw i wir yn mwynhau yw gallu cerdded 5 munud mewn un cyfeiriad a gweld eglwys ganoloesol fawr a chanol tref hyfryd, a cherdded 5-10 munud i'r cyfeiriad arall a chyrraedd Erddig – a dw i'n gallu cerdded o Kingsmill yr holl ffordd i Fwynfeydd Plwm y Mwynglawdd, a'r cwbl dw i'n gallu ei weld yw bryniau a defaid. Does dim rhaid i mi fynd i mewn i gar i wneud y rhan fwyaf o'r pethau hynny – pa mor dda 'di hynny?

Dw i wir yn credu bod Wrecsam yn un o'r llefydd pync olaf yn y Deyrnas Unedig. Rydym ni'n gwneud o i ni'n hunain yn y gymuned, rydym ni'n ei wneud achos bod arnom ni ei angen, achos ein bod ni'n mwynhau ei wneud. Un o'r pethau dw i fwyaf balch ohono yn Wrecsam ydi gallu cerdded i mewn i siop goffi, neu'r Hwb Menter, neu Tŷ Pawb, a dweud "Mae gen i syniad gwallgof, ond dw i'n meddwl bod o'n mynd i weithio." A naw gwaith allan o bob 10, bydd rhywun yn dweud "Oce, fe awn amdani!". Beth bynnag sydd arnoch chi eisiau, beth bynnag sydd arnoch chi angen.

Dydw i ddim yn meddwl bod Wrecsam ddigon adnabyddus yng Nghymru. Mae'n sir wych. Y dirwedd, yr hanes, yr hanes diwydiannol… dw i'n meddwl bod hwn yn un o'r llefydd mwyaf deinamig yn y wlad, ond dydi pobl ddim yn sylweddoli beth sydd gan Wrecsam i'w chynnig. Byddai'n wych pe gallwn newid hynny drwy fod yn Ddinas Diwylliant.

7. Monitro cydraddoldeb

Arolwg ar-lein: Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae'r data monitro cydraddoldeb a gasglwyd drwy'r arolwg ar-lein wedi'i ddadansoddi er mwyn deall i ba raddau yr ydym ni wedi cyrraedd croestoriad o'r holl bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Wrecsam, yn cynnwys unigolion gyda nodweddion a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

O gymharu â demograffeg hysbys y fwrdeistref, mae data monitro cydraddoldeb yr arolwg hwn yn awgrymu nad yw'r gweithgareddau ymgysylltu wedi cyrraedd pawb gan gynrychioli'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Roedd cynlluniau i estyn allan wyneb yn wyneb yn ystod digwyddiadau i dderbyn adborth yn defnyddio'r taflenni a sonnir amdanyn nhw yn adran 2 uchod, i gasglu adborth. Fodd bynnag, nid oedd yn briodol gwneud hyn mewn rhai digwyddiadau ac roedd gallu'r staff hefyd yn effeithio ar ein gallu i estyn allan yn y dull hwn.

Roedd cyfyngiadau COVID-19 hefyd yn effeithio ar ein gallu i gwrdd ac ymgysylltu â phobl wyneb yn wyneb, yn enwedig ar ddechrau'r cyfnod ymgysylltu.

Grwpiau a ymatebodd i’r ymgysylltiad

Roedd y 12 grŵp a ymatebodd i un neu fwy o’r tri chwestiwn allweddol yn cynrychioli'r celfyddydau, gwasanaethau gofal cymdeithasol, grwpiau plant a phobl ifanc, grwpiau trydydd sector sy’n cefnogi oedolion, a staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Grwpiau a ymatebodd i’r ymgysylltiad

At ei gilydd, o’r rheiny a ymatebodd i un neu fwy o’r tri chwestiwn allweddol, ymatebodd 214 o’r unigolion (87.3%) i’r cwestiynau monitro cydraddoldeb hefyd.

Canfyddiadau manwl

Beth yw eich oed?

Atebodd 214 o unigolion y cwestiwn 'Beth yw eich oed?'

Beth yw eich oed?	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Dan 11	1	0.5%
11-17	3	1.4%
18-24	6	2.8%
25-34	23	10.7%
35-44	44	20.6%
45-54	57	26.6%
55-64	52	24.3%
65-74	21	9.8%
75+	2	0.9%
Mae'n well gen i beidio â dweud	5	2.3%
Cyfanswm	**214**	**100.0%**

Beth yw eich rhyw?

Atebodd 213 y cwestiwn 'Beth yw eich rhyw?'

Beth yw eich rhyw?	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Dyn	70	32.9%
Dynes	136	63.8%
Arall	3	1.4%
Mae'n well gen i beidio â dweud	4	1.9%
Cyfanswm	**213**	**100.0%**

A yw eich gweithgarwch bob dydd wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis?

Atebodd 213 y cwestiwn 'A yw eich gweithgarwch bob dydd wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis?'

A yw eich gweithgarwch bob dydd wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis?	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Ydi, wedi ei gyfyngu'n arw	23	10.8%
Ydi, wedi ei gyfyngu ychydig	6	2.8%
Nac ydi	171	80.3%
Mae'n well gen i beidio â dweud	13	6.1%
Cyfanswm	**213**	**100.0%**

Beth yw eich grŵp ethnig?

Atebodd 214 y cwestiwn 'Beth yw eich grŵp ethnig?'

Beth yw eich grŵp ethnig?	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Gwyn	199	92.99%
Cymysg/grwpiau aml-ethnig	1	0.47%
Grŵp ethnig arall	4	1.87%
Mae'n well gen i beidio â dweud	10	4.67%
Cyfanswm	**214**	**100.0%**

Beth yw eich crefydd neu gred?

Atebodd 209 y cwestiwn 'Beth yw eich crefydd neu gred?'

Beth yw eich crefydd neu gred?	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Dim crefydd	63	30.1%
Cristion (pob enwad)	126	60.3%

Beth yw eich crefydd neu gred?	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Islam	1	0.5%
Bwdhaeth	0	0.0%
Hindŵaeth	0	0.0%
Iddewiaeth	0	0.0%
Sikhiaeth	0	0.0%
Arall	6	2.9%
Mae'n well gen i beidio â dweud	13	6.2%
Cyfanswm	**209**	**100.0%**

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio sut rydych yn ystyried eich hun?

Atebodd 152 y cwestiwn 'Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio sut rydych yn ystyried eich hun?'

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio sut rydych yn ystyried eich hun?	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Heterorywiol / strêt	188	89.1%
Hoyw neu Lesbiaidd	8	3.8%
Deurywiol	4	1.9%
Arall	0	0.0%
Mae'n well gen i beidio â dweud	11	5.2%
Cyfanswm	**211**	**100.0%**

Mynd i'r afael â'r heriau wrth gyrraedd grwpiau nas clywir yn aml ac sydd wedi'u tangynrychioli

Mae'r heriau wrth dderbyn adborth sy'n cynrychioli ein poblogaeth yn llawn yn bwynt dysgu i'r gweithgor Dinas Diwylliant, ac yn rhywbeth y mae arnom ni angen mynd i'r afael ag o os yw Wrecsam yn mynd i lwyddo i fod yn Ddinas Diwylliant 2025. Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar ei ben ei hun o ran wynebu heriau wrth ymgysylltu â grwpiau nas clywir yn aml a

grwpiau wedi'u tangynrychioli gan fod llawer o awdurdodau lleol a gwasanaethau statudol eraill yn cael hyn yn anodd.

Ar gyfer y gweithgaredd ymgysylltu hwn darparodd fforymau #Wrecsam2025 a'r arolwg ar-lein ddwy ffordd i'r boblogaeth ddarparu adborth i ni. Yn ogystal, cynhaliwyd ystod o weithgareddau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar gyfer cais Dinas Diwylliant 2025 Wrecsam.

Mae Wrecsam yn arwain y ffordd i ddatblygu dull cydgynhyrchu. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn gweithio'n agos gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru i wreiddio dull cyd-gynhyrchu i ddatblygu gwasanaethau o fewn y fwrdeistref.

Byddai statws Dinas Diwylliant yn darparu mwy o adnoddau er mwyn canfod dulliau gwahanol i gysylltu â phobl ac i ddeall beth mae'r rheiny sy'n byw ac yn gweithio yn Wrecsam yn ei werthfawrogi am y fwrdeistref sirol, beth sydd yn eu gwneud nhw'n falch o fyw a gweithio yn Wrecsam a pha gyfleoedd y mae modd eu creu i fynd i'r afael ag anghenion ein cymunedau.

8. Gwybodaeth Arall

Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam

Mae amseriad y cais Dinas Diwylliant yn cyd-fynd â chynhyrchu Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam, a fydd yn siapio gwaith cynllunio lles ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Asesiad Lles, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam ar 5 Mai 2022, yn cynnwys trosolwg o'r data demograffeg diweddaraf ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ac adran ar ddiwylliant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn un o'r pedair colofn ar gyfer lles. Mae'r asesiad, sydd wedi'i hysbysu gan amrywiaeth o ffynonellau data a gweithgareddau ymgysylltu helaeth â'r gymuned, yn cynnwys trosolwg o'r amrywiaeth o asedau diwylliannol diriaethol ac anniriaethol sydd yn y fwrdeistref, cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol a lles goddrychol.

Pan ofynnwyd i ddinasyddion gymryd rhan yn yr asesiad, i dderbyn eu barn ynglŷn â sut gellir gwella lles diwylliannol y fwrdeistref, fe ddywedon nhw:

- Mwy o ddigwyddiadau cymunedol. Buddsoddi mewn digwyddiadau diwylliannol rheolaidd, gwyliau bwyd a cherddoriaeth fyw
- Mwy o gefnogaeth i'r Gymraeg. Gwella'r cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn y gymuned, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y gweithle, ac ar arwyddion stryd
- Cydnabod a chefnogi diwylliannau eraill. Mae Wrecsam yn sir amrywiol, cyfleoedd i bobl gymryd rhan a dathlu eu diwylliant eu hunain, gan gefnogi cydlyniant cymunedol
- Hyrwyddo hanes a diwylliant lleol a Chymru. Cefnogi a chyfeirio at grwpiau hanes lleol ac addysgu hanes lleol yn yr ysgol

9. Casgliadau

Cynhyrchwyd adroddiad dros dro ar y gweithgarwch ymgysylltu ym mis Ionawr 2022, i hysbysu cais Dinas Diwylliant 2025 Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Ym mis Mawrth 2022 cyrhaeddodd Wrecsam restr fer Dinas Diwylliant 2025.

Mae'r adroddiad terfynol yn crynhoi canfyddiadau gwaith ymgysylltu Dinas Diwylliant Wrecsam ac yn parhau i hysbysu'r broses ymgeisio.

Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gobeithio llwyddo yn eu cais i fod yn Ddinas Diwylliant 2025. Fodd bynnag, waeth beth fo canlyniad terfynol cais Dinas Diwylliant Bwrdeistref Sirol Wrecsam, bydd adborth o'r gwaith ymgysylltu hwn yn werthfawr i gynllunio at y dyfodol.